## Memorandwm Esboniadol ar gyfer Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Etholiadau ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025.

**Jayne Bryant AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai**

**23 Medi 2025**

## 1. Disgrifiad

1. Mae adran 16 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006[1] ("Deddf 2006") yn caniatáu i Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ddynodi swyddi penodol, fel y caiff person sy'n dal un o'r swyddi hynny, ei anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd (ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd).

2. Er bod Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid cyfyngu ar anghymhwyso person rhag bod yn aelod o'r Senedd i gyn lleied o ddinasyddion â phosibl, rydym yn cydnabod bod gweithgarwch gwleidyddol yn amhriodol i ddeiliaid swyddi penodol. Yn arbennig, mae angen diogelu rhai swyddi cyhoeddus rhag rhagfarn wleidyddol, a sicrhau bod annibyniaeth y broses etholiadol yn cael ei chynnal.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

3. Dim.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

4. Mae adran 16(1)(b) o Ddeddf 2006 yn caniatáu i Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor ("Gorchymyn Anghymhwyso") ddynodi swyddi penodol sy'n anghymhwyso eu deiliaid rhag bod yn Aelod o'r Senedd, ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd.

5. Cyn pob etholiad i'r Senedd, gwneir Gorchymyn Anghymhwyso newydd sy'n dirymu'r Gorchymyn blaenorol ac yn nodi rhestr newydd o swyddi sy'n anghymhwyso. Ni chaniateir i Ei Fawrhydi yn y Cyfrin Gyngor wneud Gorchymyn o'r fath oni bai bod drafft o'r Gorchymyn wedi'i osod gerbron y Senedd a'i gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

6. Diwygiwyd adran 16 o Ddeddf 2006 gan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020[2] er mwyn gwahaniaethu rhwng anghymhwyso rhag bod yn ymgeisydd i ddod yn Aelod o'r Senedd ac anghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd. O ran yr olaf, dim ond ar y pwynt y mae person yn cymryd y llw neu'r cadarnhad teyrngarwch ar ôl cael ei ethol y bydd yn anghymwys i fod yn Aelod o'r Senedd.

7. Byddai Gorchymyn 2025 yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020[3] ac yn dod i rym yn dilyn etholiad pan gynhelir y pôl ar neu ar ôl 6 Ebrill 2026. Gall deiliaid y swyddi a nodir yng Ngorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025 sefyll fel ymgeisydd, ond ni allent gymryd y llw i ddod yn Aelod o'r Senedd heb ildio eu swydd yn gyntaf.

---

[1] 2006 p. 32.

[2] 2020 dccc 1.

[3] O.S. 2020/1255

8. Dylid darllen Gorchymyn 2025 ochr yn ochr â'r rhestr o bersonau sydd wedi'u hanghymwyso a nodir o dan adran 16 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 1A iddi. Nid yw'r swyddi hyn wedi'u cynnwys yng Ngorchymyn drafft 2025.

9. Yn unol ag adrannau 16(6), a 157(1) a (2) o Ddeddf 2006, bydd Gorchymyn 2025 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd cyn y gellir ei gyflwyno gerbron y Cyfrin Gyngor.

*Meini Prawf ar gyfer Anghymwyso*

10. Yn 2014, cynhaliodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ymchwiliad i'r rheolau sy'n ymwneud ag anghymhwyso person rhag bod yn aelod o'r Senedd[4]. Roedd yr ymchwiliad hwnnw yn cynnwys 21 o argymhellion ac yn cynnig trawsnewid y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer anghymhwyso person rhag bod yn aelod o'r Senedd. Cytunodd Llywodraeth Cymru â phrif fyrdwn adroddiad y Pwyllgor.[5]

11. Yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015[6], ac yn sgil ymgynghori ar Orchymyn drafft Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025 ("Gorchymyn 2025"), rydym wedi parhau i anrhydeddu'r ymrwymiad hwnnw.

12. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar Orchymyn 2025 rhwng 30 Mai 2025 a 25 Gorffennaf 2025, ac mae'r Gorchymyn drafft yn rhoi sylw i ganlyniad yr ymgynghoriad hwnnw.

13. Roedd y meini prawf ar gyfer pennu pa swyddi a oedd i'w cynnwys yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 yn seiliedig ar yr egwyddorion a nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor, gan gynnwys rhai ystyriaethau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru.

14. Mae'r un egwyddorion wedi parhau i gael eu cymhwyso wrth ystyried y swyddi i'w cynnwys yng Ngorchymyn 2025. Cyhoeddwyd y meini prawf a'r egwyddorion yn ymgynghoriad cyhoeddus Llywodraeth Cymru ar Orchymyn 2025.

15. Mae'r egwyddorion cyffredinol, fel y'u nodir yn argymhelliad 1 o adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, fel a ganlyn:

    Egwyddor 1: Mae hyrwyddo cyfranogiad democrataidd a'r hawl i sefyll fel Aelod o'r Senedd yn hollbwysig.

---

[4] Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i Anghymhwyso rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru Gorffennaf 2014

[5] Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Ymchwiliad i Anghymhwyso rhag bod yn Aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru

[6] O.S. 2015/1536

Egwyddor 2: Dylai anghymhwyso person rhag bod yn aelod o Senedd Cymru gael ei gyfyngu i gyn lleied o ddinasyddion â phosibl.

Egwyddor 3: Mae gweithgarwch gwleidyddol yn amhriodol yng nghyswllt rhai dinasyddion er mwyn:
i. amddiffyn annibyniaeth y broses etholiadol;
ii. atal gwrthdaro rhag codi rhwng buddiannau adeg etholiad; a
iii. amddiffyn rhai swyddi cyhoeddus rhag rhagfarn wleidyddol.

Egwyddor 4: Dylai gorchymyn anghymhwyso fod yn berthnasol i'r dinasyddion canlynol:
i. y rheini y mae eu rôl yn gofyn iddynt fod yn gwbl ddiduedd, gan gynnwys y rheini y mae eu cyfrifoldebau'n cynnwys y broses etholiadol ei hun;
ii. y rheini sy'n dal unrhyw swydd gyhoeddus lle derbynnir budd ariannol sylweddol oddi wrth Lywodraeth Cymru;
iii. y rhai sydd mewn swydd gyhoeddus ac yn darparu cyngor ffurfiol i Lywodraeth Cymru yn y rôl honno;
iv. y rheini sy'n dal unrhyw swydd gyhoeddus y mae'r Senedd yn craffu arni.

Egwyddor 5: Os oes rhaid anghymhwyso, rhaid iddynt fod:
i. yn gyson â'r egwyddorion hyn;
ii. yn glir ac yn ddiamwys;
iii. yn gymesur.

- Dylai'r swyddi a ddisgrifir yn argymhelliad 12 fod yn swyddi sy'n anghymwyso, a dylid eu cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso oni bai eu bod eisoes yn swyddi sy'n anghymhwyso o dan adran 16 o Ddeddf 2006.

- Dylai aelodau o dribiwnlysoedd barnwrol gael eu hanghymhwyso.

- Fel arfer, dylai personau a benodir gan Weinidogion Cymru gael eu hanghymhwyso, ond gall fod achosion lle na ddylid anghymhwyso personau o'r fath (ac os felly. bydd ystyried y pum egwyddor y cyfeirir atynt uchod yn bwysig).

- Ni ddylid anghymhwyso staff cyhoeddus fel y'u disgrifir yn argymhelliad 13 (e.e. staff Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, yr Heddlu, Awdurdodau Tân ac Achub, Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru) – gellir tybio'n ddiogel y byddai staff o'r fath yn rhoi'r gorau i'w cyflogaeth pe baent yn cael eu hethol, gan y byddai parhau â chyflogaeth ar yr un pryd â chyflawni cyfrifoldebau aelodau'r Senedd yn rhoi gofynion amhosibl ar yr unigolyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

16. Cyn pob etholiad i'r Senedd, gwneir Gorchymyn Anghymhwyso newydd sy'n dirymu'r Gorchymyn blaenorol ac yn nodi rhestr newydd o swyddi sy'n anghymhwyso.

17. Ar hyn o bryd, mae Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020 yn parhau mewn grym, felly mae personau sy'n dal unrhyw un o'r swyddi a bennir yng Ngorchymyn 2020 wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn aelod o'r Senedd.

18. Effaith arfaethedig y Gorchymyn drafft hwn, felly, yw dirymu Gorchymyn 2020, a nodi rhestr wedi'i diweddaru o swyddi sy'n anghymhwyso cyn yr etholiad cyffredinol nesaf i'r Senedd. Bydd Gorchymyn 2025 yn dod i rym pan gynhelir yr etholiad cyntaf i'r Senedd ar neu ar ôl 6 Ebrill 2026.

19. Bydd yn cyd-fynd â'r anghymwysiadau a nodir yn adran 16 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 1A iddi, ac unrhyw anghymwysiadau penodol eraill y darperir ar eu cyfer mewn deddfwriaeth arall i lunio'r rhestr lawn o swyddi sy'n anghymwyso. Mae'r Nodyn Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn yn ei gwneud yn glir y dylid ei ddarllen ochr yn ochr ag adran 16 o Ddeddf 2006 ac Atodlen 1A iddi.

20. Ei ddiben yw anghymhwyso deiliaid swyddi penodol rhag bod yn aelod o'r Senedd (ond nid rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd) pan fo hynny'n angenrheidiol i ddiogelu annibyniaeth y broses etholiadol, i atal gwrthdaro buddiannau, neu i ddiogelu swyddi cyhoeddus penodol rhag rhagfarn wleidyddol.

## 5. Ymgynghori

21. Cynhaliwyd ymgynghoriad mewnol gydag adrannau polisi Llywodraeth Cymru i nodi unrhyw newidiadau hysbys ers y Gorchymyn Anghymwyso blaenorol yn 2020. Roedd nifer o enwau swyddi a chyrff wedi'u diweddaru, ac roedd newidiadau deddfwriaethol hefyd wedi'u gwneud a oedd wedi arwain at ddiddymu swyddi neu gyrff, neu greu rhai newydd. O ganlyniad, gwnaed y newidiadau a ganlyn i'r Gorchymyn Anghymhwyso:

22. Mae'r corff canlynol wedi'i <u>ddileu</u> o'r Gorchymyn Anghymhwyso, yn sgil ei ddiddymu gan ddeddfwriaeth ddiweddar:

- Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.

  Y rheswm dros y dileu yw y cafodd Cynghorau Iechyd Cymuned eu diddymu gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

23. Mae'r Gorchymyn Anghymhwyso drafft yn cynnwys y swyddi a ganlyn fel <u>ychwanegiadau newydd</u>, naill ai oherwydd ceisiadau gan y swyddogion

polisi perthnasol neu oherwydd eu bod wedi cael eu cyflwyno gan ddeddfwriaeth ddiweddar:

- Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru
  *Y swyddi sy'n anghymhwyso: Cadeirydd, aelod amaethyddiaeth annibynnol ac aelod addysg annibynnol, a benodir gan Weinidogion Cymru*

- Comisiynydd y Lluoedd Arfog
  *Y swyddi sy'n anghymhwyso: Comisiynydd/Comisiynwyr*

- Y Pwyllgor Newid Hinsawdd
  *Y swyddi sy'n anghymhwyso: Yr holl aelodau*

- Cynghorau Cymuned a Thref
  *Y swyddi sy'n anghymhwyso: swyddog taledig sy'n gyfrifol, at ddibenion adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, am weinyddu materion ariannol y cyngor cymuned; person sy'n dal swydd daledig y mae'r cyngor cymuned yn ei phennu am y tro cyntaf yn y rhestr a gynhelir yn unol ag is-adran (2) ac unrhyw gyfarwyddydau o dan adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972*

- Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau)
  *Y swyddi sy'n anghymhwyso: Yr holl aelodau*

- Y Rheoleiddiwr Pêl-droed Annibynnol
  *Y swyddi sy'n anghymhwyso: Yr holl aelodau*

- Comisiynydd Cyn-filwyr Cymru
  *Y swyddi sy'n anghymhwyso: Y Comisiynydd*

24. Mae'r Gorchymyn Anghymhwyso drafft yn cynnwys y swyddi a ganlyn sydd wedi'u hailenwi ers y Gorchymyn Anghymhwyso 2020 blaenorol, a chaiff yr enw newydd ei adlewyrchu yn y Gorchymyn Anghymhwyso:

- Y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru
  *Newidiwyd i: -*
  Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru

- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
  *Newidiwyd i: -*
  Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

- Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru
  *Newidiwyd i: -*
  Tribiwnlys Addysg Cymru

- Y Gwasanaeth Cynghori ar Bensiynau

*Newidiwyd i: -*
Y Gwasanaeth Arian a Phensiynau

25. Yn ogystal ag ymgynghori â swyddogion Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus hefyd. Ar 30 Mai 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar Orchymyn drafft Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2025. Roedd yr ymgynghoriad hwn yn ceisio barn am ba swyddi y dylid eu cynnwys yn y Gorchymyn newydd a fydd yn dirymu ac yn disodli'r Gorchymyn presennol sef Gorchymyn Senedd Cymru (Anghymhwyso) 2020.

26. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 25 Gorffennaf 2025. Yn ogystal â bod ar gael i'r cyhoedd ar wefan Llywodraeth Cymru, cysylltwyd yn uniongyrchol â deiliaid y swyddi a oedd wedi'u rhestru ar gyfer anghymhwyso personau o dan y Gorchymyn drafft. Diben hyn oedd sicrhau eu bod yn cael cyfle i roi eu safbwyntiau, a nodi, yn eu barn nhw, a oedd unrhyw swyddi eraill y dylid eu cynnwys. Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai hefyd at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Arweinwyr Pleidiau a'r Llywydd i roi gwybod iddynt am yr ymgynghoriad.

27. Cafwyd cyfanswm o 19 o ymatebion cynhwysfawr i'r ymgynghoriad. Roedd rhai o'r ymatebion hyn gan gyrff a gadarnhaodd eu bod yn fodlon â'r bwriad i anghymwyso'r swyddi hynny a restrir yn y Gorchymyn drafft a oedd yn berthnasol iddynt. Awgrymodd ymatebwyr hefyd ddiwygiadau i ddisgrifiadau swyddi er mwyn sicrhau eglurder pellach, ac awgrymodd nifer o'r ymatebwyr swyddi newydd i'w cynnwys yn y Gorchymyn drafft. Gweler isod grynodeb o'r newidiadau i'r Gorchymyn drafft.

28. Cais un ymatebydd i'r ymgynghoriad oedd y dylid ystyried cynnwys aelodau'r Bwrdd Rheoli Etholiadol, a gaiff ei gynnal gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Caiff aelodau'r Bwrdd Rheoli Etholiadol eu penodi gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru, ac mae dau aelod, gan gynnwys y cadeirydd, yn aelodau o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru. Yn unol ag Atodlen 1A i Ddeddf 2006, mae aelodau o Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi'u hanghymwyso rhag bod yn Aelod o'r Senedd, neu'n ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd, ac felly eisoes wedi'u hanghymwyso. Nid yw'r aelodau eraill o'r Bwrdd Rheoli Etholiadol, a restrir o dan adran 20F(1)(c) o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 wedi'u hanghymwyso.

29. Ar ôl ystyried yr ymateb a oedd yn gwneud cais i gynnwys aelodau o'r Bwrdd Rheoli Etholiadol, yn ogystal â nodi y byddai llawer o aelodau eisoes wedi'u hanghymwyso gan eu bod yn weithwyr awdurdodau lleol, daethom i'r casgliad y dylid gwneud yr ychwanegiad hwn. Mae angen anghymwyso aelodau'r Bwrdd Rheoli Etholiadol oherwydd eu rôl mewn etholiadau, ac i atal aelodau rhag ymwneud â gweithgarwch gwleidyddol. Gallai hyn fod yn berthnasol i Swyddogion Etholiadau sydd wedi ymddeol yn ddiweddar ac sy'n gymwys i fod yn aelodau o'r Bwrdd Rheoli Etholiadol. Mae'r ychwanegiad hwn yn gyson ag Egwyddor 4 o'r meini prawf uchod a

fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i benderfynu pa swyddi y dylid eu cynnwys.

30. Cododd un ymatebydd i'r ymgynghoriad fater yn ymwneud â chysondeb o ran enwau 'cyfreithiol' ac enwau 'a adwaenir fel' sydd wedi'u drafftio yn y Gorchymyn. Ceir nifer o resymau pam y mae cymysgedd o enwau 'cyfreithiol' ac enwau 'a adwaenir fel' yn y Gorchymyn. Un o'r rhesymau yw sut y sefydlwyd y corff ei hun. Rhai o'r rhesymau eraill yw os nad yw'r corff neu'r swydd yn defnyddio'r enw cyfreithiol fel arfer, neu os oes gan lawer o gyrff eraill enwau tebyg. Ystyrir felly ei bod yn ddefnyddiol cynnwys y ddau enw er eglurder.

31. Ar ôl ystyried cysondeb y gwaith drafftio, daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad y dylid cynnwys enw 'a adwaenir fel' ychwanegol ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru, a bod y drafftio yn ddigonol ar gyfer pob swydd arall yn hyn o beth.

32. Mae dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gael yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad, a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2025-09/wg52783-crynodeb-or-ymatebion.pdf

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

33. Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, nid ystyriwyd ei bod yn angenrheidiol cynnal Asesiad Effaith Rheoleiddiol ynghylch costau a manteision tebygol cydymffurfio â'r Gorchymyn oherwydd ei fod yn dod o dan gwmpas y rhestr o eithriadau a nodir ym mharagraff 3.2 y Cod. Mae Gorchymyn 2025 yn gwneud newidiadau technegol arferol sy'n ofynnol i ddiweddaru'r ddeddfwriaeth, nad ydynt yn newid y polisi, nac effaith y ddeddfwriaeth hon mewn unrhyw ffordd.

## 7. Asesiad Effaith Integredig

34. Mae Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru wedi'i gwblhau ar gyfer Gorchymyn 2025. Mae'r newidiadau a ddaeth yn sgil y Gorchymyn drafft (yn ymwneud â Gorchymyn 2020) yn dechnegol eu natur ac yn benodol o ran eu cymhwyso i'r bobl sydd wedi'u penodi i'r swyddi dynodedig.

35. Trwy gydol y broses hon, ni nodwyd unrhyw effaith yn sgil Gorchymyn 2025 ar bobl Cymru, ar ddiwylliant y wlad a'r Gymraeg, nac ar yr economi a'r amgylchedd.

36. Nid yw'r Gorchymyn hwn yn cael effaith ar ddyletswyddau statudol Gweinidogion Cymru o ran cyfle cyfartal (adran 77 o Ddeddf 2006), y Gymraeg (adran 78 o Ddeddf 2006), na datblygu cynaliadwy (adran 79 o Ddeddf 2006), ac ni fydd yn cael effaith ar lywodraeth leol, y sector gwirfoddol na chynlluniau busnes o dan adrannau 73, 74 a 75 o Ddeddf 2006 yn y drefn honno.

37. Mae adran 1 ac adran 8 o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorchymyn 2025 ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.